# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llechryd**

**Ysgol Gynradd Llechryd**
**Llechryd**
**Aberteifi**
**Cardigan**
**SA43 2NL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddia
rfynol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/11/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Welsh Government © Crown copyright 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Llechryd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Llechryd |
| Lleoedd cofrestredig | 14 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, yn gyfforddus ac wedi ymlacio yn y lleoliad. Maent wedi ffurfio ymlyniadau emosiynol cadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r staff gofal. Mae'r plant yn datblygu hyder a hunan-barch cadarnhaol am eu bod yn cael gofal cyson gan y staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Maent yn meithrin cyfeillgarwch, yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod â phwy i siarad os byddant yn anhapus neu'n bryderus.

Mae'r staff gofal yn drylwyr eu hymagwedd ac yn ystyried plant unigol. Maent yn gosod ffiniau realistig ac yn gyson yn eu strategaethau i reoli ymddygiad. Mae'r staff gofal yn fodelau rôl cadarnhaol, ac yn darparu awyrgylch meithringar a gofalgar. Maent yn deall anghenion a galluoedd unigol y plant ac yn eu diwallu.

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r ardaloedd chwarae dan do ac awyr agored yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant a darparu cyfleoedd chwarae priodol. Caiff yr adnoddau a'r offer eu cynnal a'u cadw'n dda, ac maent o ddyluniad addas.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben sy'n rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a gynigir. Mae'r staff gofal yn deall polisïau a gweithdrefnau sy'n canolbwyntio ar anghenion y plant, ac yn eu gweithredu. Mae'r meysydd sydd wedi'u hamlygu fel rhai i'w datblygu wedi'u rhestru ar ddiwedd yr adroddiad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Caiff y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau a mynegi eu barn. Maent yn cyfathrebu'n hyderus gyda'r staff gofal a'u cyfoedion, a chaiff eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion eu hystyried. Er enghraifft, gofynnodd y plant am ragor o ddŵr a llaeth yn ystod amser byrbryd, a rhoddwyd y rhain. Mae'r plant yn ymdopi â bod ar wahân am fod cyfnodau pontio dyddiol yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigol. Er enghraifft, drwy ddefnyddio caneuon i nodi amseroedd allweddol yn ystod y dydd fel amser tacluso.

Mae'r plant yn hapus ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal a'u cyfoedion. Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent yn dod yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae'r plant yn rhyngweithio'n hyderus ac yn agored, ac yn cydweithredu a chymdeithasu mewn modd cyfeillgar. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall sut i gymryd eu tro, aros, a rhannu. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff gofal yn dangos bod y plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu da, ac maent yn troi at y staff am gysur neu gefnogaeth. Mae ymdrechion dieiriau'r plant wrth gyfathrebu, fel pwyntio ac ysgwyd eu pennau, hefyd yn cael eu nodi a'u parchu.

Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau. Maent yn dangos diddordeb a chyffro wrth gwblhau tasgau a gweld y canlyniadau. Gwelsom blant yn mwynhau addurno'r goeden Nadolig, gan aros i gymryd eu tro i roi'r peli addurno ar y goeden ac yna clapio a chodi eu bodiau pan oeddent wedi llwyddo. Roedd y plant yn chwerthin gyda'i gilydd o ddarganfod y peli addurno swnllyd. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol ac yn cael y rhyddid i ddewis gweithgareddau a symud o amgylch y lleoliad tu mewn, i gwblhau jig-sos, paentio, adeiladu a chwarae gyda'r cerbydau a'r tractorau.

Caiff y plant eu cefnogi i feddwl am yr hyn maent yn ei wneud ac maent yn cael profiadau da o gwestiynau agored a chaeëdig syml. Er enghraifft, wrth drafod y tywydd yn ystod amser cylch, roedd y plant yn gallu nodi ei bod yn wyntog ac yn glawio, ac y byddai'r gwynt yn chwythu'r dail. Caiff y plant lawer o gyfleoedd i sbarduno eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau oherwydd bod cydbwysedd da o weithgareddau sy'n cael eu harwain gan blant a'r oedolion fel ei gilydd.  Maent yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgareddau mae'r staff yn eu paratoi ond maent hefyd yn dewis archwilio ardaloedd eraill. Gwelsom rai plant yn mwynhau'r gweithgareddau crefft a osodwyd ar eu cyfer yn gysylltiedig â chwpan pêl-droed y byd, tra bod eraill wedi dewis archwilio. Maent yn annibynnol wrth benderfynu pryd i fynd i'r toiled a dod o hyd i'w heiddo.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff gofal yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn gweithio'n ddigonol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, gan annog byrbrydau iach, golchi dwylo'n rheolaidd, a darparu dŵr drwy gydol y sesiwn. Maent yn atgoffa'r plant i gadw'n ddiogel. Er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant yn rheolaidd i beidio â rhedeg dan do. Mae'r staff gofal yn rhoi arferion glanhau a hylendid priodol ar waith. Er enghraifft, glanhau'r arwynebau'n rheolaidd gan ddefnyddio chwistrell wrthfacterol.

Mae'r staff gofal yn cefnogi'r plant i siarad neu fynegi eu hunain yn dda am fod rhyngweithio cyson rhyngddynt. Maent yn ymateb i geisiadau a chwestiynau'r plant, gan esbonio'u hatebion mewn lefelau iaith priodol i sicrhau bod yr holl blant yn deall. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae gan y rhan fwyaf o'r staff ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i amddiffyn plant. Mae'r staff gofal hefyd wedi cwblhau hyfforddiant 'Prevent' ar radicaleiddio.

Mae'r staff gofal yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn defnyddio siartiau gwobrwyo'n rheolaidd, yn canmol y plant, ac yn defnyddio technegau tynnu sylw yn effeithiol. Er enghraifft, pan mae anghytundeb ymysg y plant ynghylch tegan a ddaeth i'r lleoliad o'r cartref, mae'r staff yn siarad â'r plant am rannu ac yn annog y plant i adael y tegan mewn man diogel. Mae'r staff gofal yn fodelau rôl da ac yn ymatebol o hyd; Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio'n gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r staff gofal yn cynnig gweithgareddau chwarae a dysgu sy'n addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant yn eu gofal. Maent yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i sefydlu dull cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru a sut y gallant nodi camau nesaf y plant ac adolygu cynnydd yn rheolaidd. Maent yn darparu gofal a chyfleoedd addas i blant ag anghenion ychwanegol, ac yn darparu ar eu cyfer drwy weithio ar y cyd ag asiantaethau allanol i gefnogi'r plant a'r teuluoedd ymhellach. Mae enghreifftiau da o gyfathrebu effeithiol rhwng y staff gofal a'r rhieni / gofalwyr am fod gofynion unigol y plant gael eu hystyried a'u parchu.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau digonol ar waith i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'r lleoliad mewn ystafell ddosbarth yn yr ysgol gynradd leol. Cyfyngedig yw'r lle sydd ar gael i'r lleoliad. Fodd bynnag, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r lle sydd ar gael iddynt yn dda. Mae cofnod o'r bobl sy'n ymweld â'r lleoliad. Nid oes modd i ymwelwyr gyrraedd unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod y staff gofal yn eu gadael i mewn. Mae'r staff gofal yn arfer gweithdrefnau hylendid effeithiol yn gyson, er enghraifft, drwy sychu'r byrddau cyn i'r plant gael bwyd. Mae'r staff gofal yn sicrhau eu bod yn y lle iawn ym mhob rhan o'r lleoliad i allu monitro diogelwch y plant yn dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion o ymarferion tân rheolaidd a chaiff y rhain eu cwblhau ochr yn ochr â'r system sydd ar waith yn yr ysgol. Mae asesiadau risg boddhaol ar waith a gaiff eu gweithredu'n ymarferol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad hawdd i becynnau cymorth cyntaf yn yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored a bod unrhyw sylweddau peryglus eu cadw allan o gyrraedd y plant. Gan mai'r ysgol gynradd sy'n cwblhau tystysgrifau diogelwch y system wresogi ac oedi o du'r awdurdod lleol o ran tystysgrifau profion PAT, nid oedd y rhain ar gael i ni eu gweld. Fodd bynnag, cadarnhaodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad eu bod wedi'u cwblhau. Caiff y safle ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae arddangosiadau deniadol sy'n dathlu gwaith y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle ac unrhyw ardaloedd chwarae awyr agored yn darparu digon o le ar gyfer chwarae a dysgu. Mae digon o le a chyfleusterau ar gael i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r ardal awyr agored yn cynnig beiciau a threiciau, tŷ bach twt a phwll tywod. Mae cynllun yr amgylchedd yn sicrhau bod modd i blant ag anghenion dysgu ychwanegol ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn hawdd. Dan do, mae'r staff gofal yn darparu adnoddau glân sy'n addas i oedran y plant, sydd mewn cyflwr da, ac sy'n cael eu storio lle y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd. Mae'r dodrefn yn addas i oedran y plant, yn hybu annibyniaeth ac yn sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac yn ddiogel wrth chwarae.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymrwymo i gyflawni gwelliannau parhaus ac maent yn frwd am reolaeth a gweithrediad y gwasanaeth. Mae datganiad clir o ddiben sy'n adlewyrchu arfer cyffredin y lleoliad ac sy'n caniatáu i rieni wneud penderfyniad gwybodus.

Mae'r staff gofal yn ymgorffori'r polisïau yn effeithiol wrth redeg y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn dda ac yn sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd drefnus, fel eu bod yn bodloni'r cymarebau staffio ac yn diwallu anghenion y plant yn llawn. Cadarnhaodd y staff gofal eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a bod polisi drws agored os bydd unrhyw faterion yn codi. Nid yw rheoli perfformiad bob amser yn effeithiol. Nid yw pob aelod o'r staff gofal wedi cael eu goruchwyliadau neu eu harfarniadau wedi'u cwblhau'n rheolaidd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio trylwyr ar y cyfan er mwyn diogelu'r plant. Maent yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o'r staff wiriadau addasrwydd cyfoes. Maent yn darparu gweithdrefn sefydlu dda ar gyfer staff newydd, ac yn hyrwyddo hyfforddiant parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, roedd rhai dogfennau gofynnol ar goll o ffeiliau staff, fel hanes gwaith blaenorol a gwiriadau dulliau adnabod. Unionwyd hyn ar unwaith yn dilyn yr arolygiad ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cadarnhau bod ffeiliau staff bellach yn gwbl gyflawn.

Mae'r staff gofal wedi'u cymhwyso'n addas ac wedi mynychu'r hyfforddiant gorfodol fel cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu. Mae adolygiad gorffenedig o ansawdd y gofal yn ei le, sy'n ystyried barn defnyddwyr y gwasanaeth ac yn nodi ffyrdd o ddatblygu yn y dyfodol. Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad yn gweithio'n dda fel tîm, ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'i rolau a'i gyfrifoldebau, ac yn cefnogi'r plant mewn modd priodol. At ei gilydd, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am newidiadau i'r lleoliad. Fodd bynnag, nid oeddent wedi hysbysu AGC bod newid wedi bod parthed y person â gofal o'r lleoliad. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae partneriaethau gyda rhieni a'r gymuned ehangach yn dda. Mae'r staff gofal yn esbonio eu bod yn cael trafodaeth yn rheolaidd gyda rhieni ar adegau gollwng a chasglu eu plant. Maent hefyd yn defnyddio tudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu lluniau. Caiff llyfrau lloffion o waith y plant a lluniau o weithgareddau eu hanfon adref at y rhieni pan fydd plant yn gadael y lleoliad. Mae cysylltiadau agos ag athro dosbarth derbyn yr ysgol gynradd, sy'n cynorthwyo'r plant gyda'r cyfnod pontio i addysg llawn amser.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Parhau i geisio cyngor a chymorth i ddatblygu'r dull cynllunio ac arsylwi yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

ddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid oedd yr Unigolyn Cyfrifol wedi hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru bod person â gofal newydd yn y lleoliad. | Newydd |
| 29 | Nid yw'r staff yn cael arfarniad blynyddol na chyfarfodydd goruchwylio rheolaidd. Sicrhau bod pob aelod o'r staff ei oruchwylio'n rheolaidd a'i arfarnu'n flynyddol. | Newydd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi